Cynllun Gweithredu er mwyn ymateb i Argymhellion yr Asesiad Perfformiad gan Banel (10-13 Mawrth 2026)

Argymhelliad	Manylion yr Argymhelliad	Camau gweithredu Cyngor Gwynedd	Swyddog(ion) arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Argymhelliad 1a **Cynllunio Strategol**	Dylai Cyngor Gwynedd adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar themâu wrth baratoi a datblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf gyda ffocws ar: • Cynllunio hir dymor • Osod gweledigaeth ar gyfer Gwynedd a'r gwerthoedd sy'n hanfodol i'w gyflawni • Sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y Cyngor a Gwynedd fel lle • Cynnwys staff, aelodau a'r gymuned ehangach i ddatblygu a chyflawni Cynllun Corfforaethol sy'n seiliedig ar le • Alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor	• Sefydlu trefniadau clir a chynllun prosiect ar gyfer paratoi'r Cynllun Corfforaethol nesaf, gan gynnwys cylch gwaith, amserlen, adnoddau, pwy fydd yn gyfrifol a threfn adrodd cynnydd chwarterol. • Adolygu'r Cynllun Corfforaethol presennol a'r dystiolaeth (perfformiad, data poblogaeth, asesiadau effaith, asesiadau llesiant, adborth partneriaid) i nodi themâu hirdymor a blaenoriaethau strategol. • Datblygu gweledigaeth glir ar gyfer Gwynedd a set o werthoedd, gyda meini prawf llwyddiant a chanlyniadau y gellir eu mesur. • Cynnal ymgysylltiad strwythuredig â staff ac aelodau (gweithdai/themâu) ac ymgynghoriad ehangach â'r gymuned a phartneriaid i fireinio'r blaenoriaethau "seiliedig ar le".	Prif Weithredwr/Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid a Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor	Mawrth 2028 – Cyngor yn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd

		• Sicrhau aliniad llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid: mapio pob blaenoriaeth i gostau, buddion, risgiau a cherrig milltir, a chytuno ar drefniadau monitro ac adrodd.		
		• Cydweithio'n gynnar ac yn barhaus â'r Cabinet yn dilyn etholiadau 2027 i gytuno ar flaenoriaethau, dull "seiliedig ar le", a gwneud yn siŵr bod y Cynllun Corfforaethol nesaf yn adlewyrchu cyfeiriad gwleidyddol y tymor newydd.		
Argymhelliad 1b **Cynllunio Strategaethol am y dyfodol**	Dylai Cyngor Gwynedd adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hir dymor.	• Cwblhau adolygiad o gapasiti arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol gan asesu a yw'r trefniadau presennol yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a chefnogi cynllunio hirdymor.	Prif Weithredwr	Gorffennaf 2027
		• Mapio cryfderau, bylchau a risgiau o fewn y strwythur arweinyddiaeth presennol, gan gynnwys gwydnwch, olyniaeth a gallu'r Cyngor i arwain trawsnewid corfforaethol.		
		• Cymharu trefniadau arweinyddiaeth a strwythurau		

		rheoli â chynghorau tebyg er mwyn nodi arfer da a gwersi perthnasol.		
		• Datblygu opsiynau wedi eu costio ar gyfer cryfhau capasiti strategol, gan ystyried y goblygiadau o ran cyfrifoldebau corfforaethol, trefniadau cymorth a'r gallu i weithredu.		
		• Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad i Bwyllgorau perthnasol, gyda chynllun gweithredu, amserlen a threfniadau monitro clir.		
Argymhelliad 2a **Trawsnewid**	Sicrhau bod y gweithlu yn greiddiol i'r gwaith cynllunio strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor gyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.	Mapio a chydlynu'r trefniadau, sianeli a gweithgareddau ymgysylltu mewnol presennol ar draws y Cyngor er mwyn nodi cryfderau, bylchau, dyblygu a gwella chydlynu.	Pennaeth Gwasanaethau Gorfforaethol	Hydref 2027
		• Datblygu dull corfforaethol unedig ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â'r gweithlu gan gynnwys egwyddorion, safonau ymgysylltu, sianeli cyfathrebu a threfn defnyddio adborth staff.		
		• Diffinio rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu clir i sicrhau bod y gweithlu yn cael ei		

		gynnwys yn gyson ac yn ystyrlon mewn rhaglenni newid a blaenoriaethau corfforaethol.		
		• Sefydlu mecanweithiau cyfathrebu ac adborth rheolaidd gan gynnwys calendr ymgysylltu blynyddol, dulliau casglu adborth a threfn adrodd sut mae adborth wedi dylanwadu ar benderfyniadau.		
		• Monitro ac adolygu effeithiolrwydd y dull newydd yn rheolaidd, gan ddefnyddio data cyfranogiad, adborth staff ac enghreifftiau o newidiadau a wnaed i lywio gwelliant parhaus.		
Argymhelliad 2b **Trawsnewid**	Dylai Cyngor Gwynedd ddatblygu dull trawsnewidiol unedig sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau newid y sefydliad yn glir. Dylai'r dull hwn: • Weithredu ar lefel strategol sefydliad cyfan • Parhau i sylweddoli a defnyddio gwerth partneriaid • Cael ei integreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a'i ariannu drwyddo	• Datblygu dull trawsnewidiol corfforaethol unedig gan nodi cyfeiriad strategol, egwyddorion gweithredu a'r prif flaenoriaethau newid ar draws y Cyngor.	Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Pennaeth Cyllid	Mehefin 2027
		• Mapio pob rhaglen, prosiect a menter drawsnewid bresennol a'u rhoi o fewn fframwaith cydlynol sy'n nodi perchnogion, canlyniadau, cerrig milltir a threfniadau llywodraethu.		
		• Cytuno ar drefniadau gweithio gyda phartneriaid erbyn Mawrth 2027,		

	• Ddarparu sail gadarn ar gyfer diogelu gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad	gan nodi pa bartneriaid sy'n cyfrannu at bob blaenoriaeth drawsnewid a sut y bydd eu gwerth yn cael ei fesur. • Integreiddio'r fframwaith trawsnewid â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drwy gostio blaenoriaethau newid, nodi ffynonellau ariannu a diffinio buddion ariannol ac anariannol disgwyliedig. • Defnyddio'r fframwaith fel sail i gryfhau gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad a monitro cynnydd yn erbyn y canlyniadau disgwyliedig.		
Argymhelliad 3 **Adnoddau a Gweithio mewn Partneriaeth**	Er mwyn meithrin capasiti a chryfhau cydweithio gyda phartneriaid: • Dod â strategaeth economaidd fabwysiedig yn fyw ar bob lefel ledled Gwynedd • Gwireddu potensial gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned • Cynyddu gallu'r cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau economaidd/cymdeithasol	• Paratoi cynllun gweithredu ar gyfer gweithredu'r strategaeth economaidd fabwysiedig gan gysylltu pob blaenoriaeth â chanlyniadau mesuradwy, perchnogion a cherrig milltir. • Cryfhau'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned, gan adnabod cyfleoedd ymarferol ar gyfer cydweithio, rhannu adnoddau a chyflawni blaenoriaethau lleol.	Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol/Pennaeth Economi a Chymuned	Hydref 2027

	• Sicrhau bod Cytundeb Mantell Gwynedd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n llawn	• Adolygu'r capasiti ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni uchelgeisiau economaidd a chymdeithasol, a chyflwyno opsiynau i gryfhau'r gallu hwnnw lle bo angen. • Cytuno ar drefniadau gweithredu, cydlynu, monitro ac adrodd ar gyfer Cytundeb Mantell Gwynedd, gan gynnwys perchnogion gwaith, cerrig milltir a threfn adrodd cynnydd.		
Argymhelliad 4 **Risg**	Mae angen i Gyngor Gwynedd ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol, sy'n mynegi archwaeth risg y cyngor ac yn: • Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes • Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, y cabinet, a'r cyngor llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd • Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y cyngor	• Cwblhau a chyflwyno'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg Corfforaethol diwygiedig (gan gynnwys datganiad archwaeth risg) i'w gymeradwyo gan y Cabinet, ac adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio . • Sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyfoes: safoni'r templed cofrestr risg, diffinio perchnogion risg, a chadarnhau bod pob risg yn cynnwys sgoriau Cyfredol (Residual) a Tharged (Target) gan ddefnyddio matrics 5x5 y Cyngor. • Gosod trefniadau llywodraethu, adrodd ac adolygu: (a) Tîm Rheoli Corfforaethol i adolygu'r Gofrestr	Pennaeth Cyllid	Mehefin 2027

		Risg Gorfforaethol yn chwarterol a chytuno ar esgyn/diraddio risgiau; (b) adrodd chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; (c) Cabinet i osod archwaeth risg y Cyngor, gan sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried risgiau ac yn aros o fewn y terfynau, tra'n adolygu a gwella trefniadau rheoli risg yn rheolaidd.		
		• Datblygu a darparu rhaglen hyfforddi a datblygu ar reoli risg ar gyfer Aelodau (gan gynnwys rôl goruchwylio, archwaeth risg, darllen cofrestr risg, a herio rheolaethau), ac i reolwyr fel "perchnogion risg"; cofnodi presenoldeb a chynnal sesiynau adnewyddu'n flynyddol.		
		• Atgyfnerthu'r broses a'r diwylliant: sefydlu amserlen adolygu cofrestrau risg gwasanaeth (o leiaf chwarterol), defnyddio dull "SMART" i olrhain camau lliniaru, a chofnodi "gwersi a ddysgwyd" o ddigwyddiadau/awdits i lywio gwelliant parhaus.		
Argymhelliad 5	Dylai Cyngor Gwynedd fireinio ag uno ei drefniadau rheoli	• Adolygu a mapio'r trefniadau rheoli perfformiad presennol ar draws y Cyngor er mwyn uno prosesau,	Prif Weithredwr / Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor	Hydref 2027

Rheoli Perfformiad	perfformiad gyda ffocws penodol ar ddangos cyfraniadau tuag at: • Gyflawni'r Cynllun Corfforaethol • Gysylltu â risgiau Corfforaethol ac adrannol • Gynyddu cyfleoedd her gan cymheiriaid ar draws a thu hwnt i'r Cyngor	lleihau dyblygu a chreu fframwaith corfforaethol mwy cydlynol.		
		• Datblygu set graidd o fesurau a dangosyddion perfformiad sy'n dangos cyfraniad gwasanaethau ac adrannau at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.		
		• Integreiddio adroddiadau perfformiad â'r gofrestr risg gorfforaethol a chofrestrau risg adrannol er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng cynnydd, risgiau, camau lliniaru a phenderfyniadau rheoli.		
		• Sefydlu rhaglen flynyddol o graffu a her gan gymheiriaid o fewn ac y tu hwnt i'r Cyngor, gan gofnodi adborth, argymhellion a chamau gwella sy'n deillio o'r broses.		
		• Cryfhau trefniadau monitro, adrodd ac adolygu rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth perfformiad yn cael ei defnyddio'n gyson i lywio penderfyniadau, gwella gwasanaethau a chefnogi atebolrwydd corfforaethol.		